

G. G. EVANS yn dyfalu faint yw cyfran Silvan Evans yn Llyfryddiaeth ryfeddol Gwilym Lleyrn

OS OES rhywun yn haeddu cael llun ei fedd yn *Y Casglwr*, awdur *Llyfryddiaeth y Cymry* fyddai hwnnw. A dyma ddarlun o'i fedd ym mynwent Capel y Caerau yn nehau plwyf Llandinam yn yr hen Sir Drefaldwyn.

Mae ateb i'r cwestiwn pam mai yma y claddwyd gŵr sy'n arddel pen-draw Gwynedd yn ei ffugenw yn yr arysgrifau ar y garreg fedd ac yn y ffaith mai gweinidog Wesleiaidd ydoedd a fu ddwywaith, o 1842 i 1845 ac o 1851 i 1856, yng ngofal Capel y Bont Hir yn Llanidloes. (Nid yr un presennol ond ar yr un safle.)

Cyn dod i Lanidloes a rhwng ei ddau gyfnod yno bu'r Parchedig William Rowlands yn gweinidogaethu ar draws ac ar led Cymru. Ei gylchdaith olaf ydoedd ym Machynlleth rhwng 1862 a 1864.

Pan aeth yn uwchrif symudodd i Groesoswallt lle bu farw yn dair a thrigain yn 1865. Wedi gwasanaeth yn ei gartre' yna hebryngwyd y corff i'r stesion ac yna yn y trê'n i 'halt' Dolwen heb fod ymhell o'r fynwent.

Dyma a geir ar y garreg wastad ym mynwent y Caerau:

Er coffadwriaeth am John annwyl fab y Parch William ac Ann Rowlands yr hwn a fu farw Ebrill 4ydd 1854 yn 15 mlwydd a 10 mis.

Er coffadwriaeth am y Parch William Rowlands (Gwilym Lleyrn). Gweinidog Wesleiaidd a fu farw Mawrth 21ed 1865 yn y 63ain flwyddyn o'i oedran a'r 36ain o'i weinidogaeth.

I'r bedd o'r diwedd y daeth—ein gwron Er ei fawr ragoriaeth Fe beidiodd ffrwd ei ddawn ffraeth Mor wael ym mro marwolaeth.


In loving memory of Captain Thomas Rowlands, son of Rev. William and Anne Rowlands who on the 29th March 1878 was drowned near Land's End aged 36 years.

In loving memory of Anne widow of Rev. William Rowlands who died at Pembroke Dock October 26 1880 in her 75th year.

Make meet through consecrated pain To see the face divine.

Trwy chwylfrydedd ynglŷn â 'chaerau' y deuthum ar draws y beddrod. Saif y capel ar lethr ar y chwith tu uchaf i'r ffordd sy'n arwain o myl Pont Dolwen hanner y ffordd rhwng Llandinam a Llanidloes i fyny i gyfeiriad lleoedd dieithr i'r rhelyw o'r darllenwyr — New Chapel, Lliadiart y Waen, Tylwch, Nantgwyn, Pantydŵr a Saint Harmon. Dichon y bu caer yn y cynoesoedd ar un o'r trumiau cyfagos er nad oes olion.

Am y capel nid yw'n furddun er na chynhaliwyd gwasanaeth ynddo ers blynyddoedd lawer. Am y fynwent deallaf fod un gŵr



â threfniant i'w gladdu ynddi ac yna fe'i caeir yn derfynol.

* * * *

CWESTIWN a gyfyd ym meddyliau darllenwyr yw ym mha iaith y cynhelid gwasanaethau yng nghapeli y Parch William Rowlands. Saesneg oedd iaith y capel cyntaf a agorwyd yn Stryd y Bont Hir yn Llanidloes yn 1802 ond trowyd i'r Gymraeg tua 1820. Yn 1862 ar gais aelodau o'r enwad agorwyd capel Saesneg yn Eastgate Street yn 1862.

Parthed y Caerau y mae gwybodaeth yng nghofnodion yr Eglwys, sydd i'w cael yn y Llyfrgell Genedlaethol, am y sefyllfa ieithyddol ym mhlwyf Llandinam yn 1870. Saesneg yn unig a siaredid gan y trigolion o Moat Lane hyd at ddwy filltir o Lanidloes er y deallai rhai o'r hen bobl Gymraeg. Saesneg yn unig hefyd ydoedd iaith y pentref.

Yn yr ucheldir roedd rhai yn deall ac yn siarad Cymraeg ond yn well ganddynt Saesneg. Roedd y gwasanaethau yn eglwys y plwyf ac yn y capeli ymneilltuoil yn Saesneg ac eithrio'r Caerau lle ceid gwasanaeth Cymraeg a Saesneg bob yn ail.

O droi at waith mawr Gwilym Lleyrn y ffaith gyntaf i'w nodi yw i gyfran helaeth o'i ymchwil i lyfryddiaeth ymddangos mewn wyth rhifyn o'r *Traethodydd* yn 1852 a 1853. Prawf yr atodiadau yn rhifynnau olaf y ddwy flynedd mai cyhoeddi gwaith ar y gweill yr oedd yr awdur a'i fod yn dal i ymchwilio a chasglu teitlau llyfrau a ymddangosodd cyn 1800.

Rhydd y ffigurau isod am ddau gyfnod enghreifftiol syniad o faint mwy o ymchwil a wnaeth wedi 1853:

1546-1588 *Traethodydd* 29 teitl;

Llyfryddiaeth 50.

1685-1700 *Traethodydd* 63 teitl;

Llyfryddiaeth 86.

Rhywbeth tros dro ydoedd y cyhoeddi yn y *Traethodydd*. Ei fwriad a'i uchelgais oedd cyhoeddi ei waith yn llyfr teilwng o'i lafur.

Teg yw tybio iddo drafod hyn gydag un o gyhoeddwr Llanidloes, sef John Pryse (1826-83). Daeth yn ŵr ifanc i'r dre pan oedd Gwilym Lleyrn yno yn y

pedwar degau. Erbyn adeg yr ail ofalaeth yno yr oedd John Pryse wedi ymsefydlu fel cyhoeddwr ac yn ddinesydd parchus.

Mae'n debyg ei fod fel dyn busnes eisiau sicrwydd bod galw am lyfr llyfryddol canys bu'r awdur yn ddygn yn casglu tansysgrifwyr. Cofnodir iddo wrth wneud hynny wario ar argraffu a stampiau gymaint â £7 2s. 4c. Ond bu farw cyn gweld ei waith enfawr rhwng cloriau llyfr.

* * * *

YN 1869 yr ymddangosodd y llyfr '*printed and published by John Pryse*'. Dyna sydd ar y wyneb-ddalen i'r *Cambrian Bibliography*. Dilynyr hi gan wyneb-ddalen yn Gymraeg: yr unig Saesneg ychwanegol yw '*The Publisher to the Reader*' a rhestr tansysgrifwyr.

Yr enw cyntaf yw '*His Imperial Highness Prince Louis Lucien Buonaparte*'. Yna ceir enwau pendefigaidd ac esgobol.

Beth bynnag am y rheiny yr oedd cael enw'r Bonoparte annodweddiadol hwn o'i dylwyth yn deyrnged werthfawr i'r gwaith a'r awdur canys yr oedd y tywysog yn ysgolhaig blaenllaw ym maes astudiaethau ieithyddol. Bu iddo pan ymddangosodd erthyglau Gwilym Lleyrn yn y *Traethodydd* eu rhwymo'n llyfr er hwylustod iddo'i hun.

Cynnwys y rhestr 434 o enwau. Ond ni phrynodd hyn o danysgrifwyr y llyfr o bell ffordd. Yr oedd rhai wedi marw neu wedi mudo a llawer o'r gweddill yn amharod i dderbyn y llyfr. Cafodd John Pryse golled o £150 ar y fenter. Yn ddiweddarach ceisiodd leihau'r golled trwy gynnig y *Llyfryddiaeth* ar werth yn bedair rhan am hanner coron yr un.

* * * *

ER I MI fod yn ddefnyddiwr cyson o *Llyfryddiaeth y Cymry* rhaid i mi gyfaddef na ddarllenais ddim ohono ar wahân i'r nodiadau ar lyfrau y mynnwn wybodaeth amdanynt.

Yn ddiweddar yr edrychais ar ddechrau a diwedd y llyfr. Yr hyn a sylwedolais ydoedd maint a natur cyfraniad Daniel Silvan Evans. Ei waith ef yw'r hysbysiad ar y dechrau. Ei eiriau cyntaf yw 'Ymgymmerais a golygu y gwaith

hwn trwy y wasg yn ôl dymuniad neilltuoil yr Awdur . . .'

Ai yn fuan wedi'i sefydlu'n Beriglor Llan y Mawddwy, Meirion yn 1862 a phan oedd Gwilym Lleyrn yn gweinidogaethu ym Machynlleth y cytunwyd i hyn?

Nid gorchwyl hwylus ydoedd y golygu i ysgolhaig cydwybodol fel Daniel Silvan Evans a oedd yn ymwybodol o'i statws academig. Gwyddai mai gwaith Gwilym Lleyrn ydoedd yr astudiaeth orau yn y maes llyfryddol ond gwelai hefyd wendidau'r ymgais. Ei amcan yn yr hysbysiad oedd gosod terfynau ar ei gyfrifoldeb fel golygydd. Dechreuau trwy gyfeirio at wendii yr awdur fel ymchwilydd,

cyn belled ag yr wyf wedi cael cyfleusdra i gymharu y llyfrau eu hunain a'u henwau megis y maent wedi eu cofrestru gan yr Awdur, nid wyf wedi cyfarfod ag un cyfnod yn hollol gywir.

Cyfeiria'n feirniadol at duedd yr Awdur i fynegi golygiadau 'ar bynciau duwinyddol, eglwysig, neu lywodraethol, y rhai yr oedd ef mor hoff o'u dwyn i mewn i'r gwaith ar bob cyfle, a'r rhai y buasai yn ddymunol, os oedd rhaid eu cyhoeddi, pe cadewsid hwynt ar gyfer rhyw lyfr arall, gan eu bod gan mwyaf yn gwbl amhherthnasol . . .'

Mynega hefyd ei farn mai difudd ydoedd gwaith Gwilym Lleyrn yn cynnwys cyfrolau nad oeddynt yn 'llyfrau Cymraeg (yn gyfan neu mewn rhan), a llyfrau yn dal perthynas a Chymru yn benodol'. Hawdd o droi tudalennau'r *Llyfryddiaeth* yw canfod teitlau'r llyfrau y credai Silvan Evans na ddylasant fod yno.

* * * *

PARHAODD Silvan Evans i ymddiddori mewn llyfryddiaeth ac i ymchwilio. Cyhoeddwyd ganddo dri atodiad i'r *Llyfryddiaeth* yn y *Revue Celtique* rhwng 1870 a 1875. Cynnwys ei restrau 188 o deitlau llyfrau.

Ar ddiwedd y cyfraniad olaf gwelir '*to be continued*'. Ond nid oes ddilyniant. Hefyd ni chyflawnodd y gorchwyl fel y bwriadai ar y dechrau, ' . . . the articles will be found promiscuously entered; but at the end a table of reference to the works printed in each year will be given'.

Cydnabod a Ddiolch: Mr E. D. Jones-Evans, y Dreneddydd, yn garedig iawn a dynnodd y litunia. Ceir hanes yr argraffwr a'r angraffu yn erthygl Mr J. Iorwerth Davies ar 'Argraffwyr Maldwyn' yn rhifyn 68 (1980) o'r *Montgomeryshire Collections*. Yr hanesydd Mr E. Ronald Morris, Llanidloes, a roes i mi y wybodaeth am Lanidloes a Llandinam.